



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Cae Top

**Ffordd Eithinog
Bangor**

LL57 2GZ

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Cae Top

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Cae Top
Awdurdod lleol	Cyngor Gwynedd
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	Yr Eglwys yng Nghymru
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	237
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	178
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	29
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	19.4%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%)	18.5%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	19.1%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	12.4%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2014
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	01/05/2016
Dyddiad dechrau'r arolygiad	17/06/2024

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blyneddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://www.gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol

Trosolwg

Mae Ysgol Cae Top yn lle hapus a chartrefol i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr. Mae staff yn meithrin balchder disgyblion at y Gymraeg ac yn dwysáu eu gwybodaeth am hanes lleol a thraddodiadau cenedlaethol yn hynod effeithiol. Mae croeso cynnes i'r holl ddisgyblion a'u teuluoedd. Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn falch o fod yn rhan o amgylchedd dysgu ysgogol a chynhwysol. Mae'r pennaeth a'r staff yn cymryd gofal eithriadol o dda o'r disgyblion ac eisiau iddynt ffynnu mewn dysgu ac mewn bywyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau rhifedd, Saesneg a digidol o'u manau cychwyn. Mae llawer yn adeiladu'n gynyddol ar eu medrau ysgrifennu. Fodd bynnag, nid yw'r diwylliant darllen yn annog y rhan fwyaf o ddisgyblion i fwynhau testunau Cymraeg. Yn ogystal, mae disgyblion yn dueddol o ddefnyddio Saesneg fel iaith ar gyfer cyfathrebu a chymdeithasu. Law yn llaw, mae hyn yn cyfyngu ar ddatblygiad eu medrau llafar a darllen Cymraeg.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn flaengar a chreadigol i ofynion Cwricwlwm i Gymru gan gynnig arweiniad gwerthfawr i ysgolion ledled Cymru. Mae blaengaredd y cynlluniau strategol yn darparu cyfleoedd a phrofiadau cyfoethog i ddisgyblion ar draws yr ysgol ddatblygu a chymhwyso'u medrau mewn modd dychmygus. Mae'r disgyblion yn dysgu am hanes, diwylliant a chwedlau'r ardal, ac mae hyn yn cyfoethogi eu dysgu yn hynod lwyddiannus.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a thosturiol ac yn adnabod yr ysgol yn dda iawn. Mae'n cymell a chefnogi datblygiad proffesiynol pob un a chaiff ei gefnogi'n fedrus gan yr holl staff. Maent yn ymddiried yn ei gilydd i ffurfio tîm effeithiol, llwyddiannus. Mae'r tîm addysgu yn gweithio'n bwrpasol ochr yn ochr â'r corff llywodraethol i sicrhau gwelliannau i'r ysgol. Gyda'i gilydd, maent yn deall cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu ac yn cynllunio camau strategol cynhwysfawr i sicrhau gwelliant.

Argymhellion

- A1 Gwella defnydd disgyblion o Gymraeg llafar a meithrin diwylliant darllen cyfoethog i gefnogi mwynhad a chynnydd disgyblion wrth ddarllen Cymraeg
- A2 Gwella presenoldeb

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Cae Top
Mehfin 2024

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â chymell a mentora staff i ddatblygu arweinyddiaeth, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion y medrau sy'n ddisgwylidig am eu hoed a'u gallu, heblaw am eu medrau llafar Cymraeg, lle mae'r rhan fwyaf islaw'r hyn a ddisgwylir.

O'r manau cychwyn hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd ag incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarnhaol, yn enwedig yn eu medrau rhifedd, ysgrifennu a digidol. Maent yn dwysáu eu dealltwriaeth ac yn caffael gwybodaeth yn gynyddol hyderus mewn ystod gyfoethog o gyd-destunau dysgu. Un elfen nodedig o'r ysgol yw bod disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn gwneud cynnydd cyson mewn amgylchedd dysgu hynod gefnogol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfraniadau ei gilydd a chyfarwyddiadau staff. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn ailadrodd geirfa a phatrymau iaith yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn sgwrsio'n frwdfrydig am eu gwaith, er enghraifft wrth ddefnyddio ansoddeiriau dychmygus wrth blannu planhigion a disgrifio trychfilod. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth lunio brawddegau estynedig Saesneg i gynnwys ymadroddion cyfunol achlysurol. Er hyn, ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn troi i'r Saesneg wrth gyfathrebu â'i gilydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gyson. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu gwybodaeth am seiniau llythrennau yn fedrus, ac erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio ystod dda o strategaethau yn effeithiol i ddarllen geiriau llai cyfarwydd. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau'n gadarn ac yn mwynhau darllen amrywiol destunau cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n datblygu eu mwynhad a'u gwybodaeth o destunau darllen Cymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mireinio eu medrau ysgrifennu'n gynyddol hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau ysgrifennu cynnar wrth ffurfio llythrennau yn yr ardal allanol. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn dewis a dethol geiriau'n ofalus i greu effaith, er enghraifft wrth ysgrifennu disgrifiad o bont Britannia.

Erbyn Blwyddyn 3 a 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu gyda chywirdeb priodol mewn amrywiol gyd-destunau ac mewn amrywiol ffurfiau, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd am forfil sydd wedi ei ddarganfod ym Mhen Llŷn. Ym Mlwyddyn 5 a 6, maent yn datblygu eu gallu i ysgrifennu mewn ystod berthnasol o ffurfiau ac yn dewis a dethol geiriau'n ofalus i greu effaith. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn dwysáu eu gwybodaeth yn fedrus yn y ddwy iaith, sydd yn ei dro yn eu cefnogi i wneud cynnydd parhaus yn eu medrau ysgrifennu. Wrth gyflwyno darnau estynedig, maent yn datblygu eu medrau'n gydlynus, yn aml wrth gymhwyso eu medrau digidol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu adroddiad dadl o blaid ac yn erbyn boddi Cwm Tryweryn gan gymhwyso eu medrau digidol i'w gyflwyno'n

greadigol ar ffurf sgrin werdd. Mae'r ddarpariaeth ddigidol eang yn cyfoethogi profiadau cyfathrebu disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dod i adnabod rhifau a siapiau 3D syml ac yn datblygu dealltwriaeth o fesur yn dda. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol trwy weithgareddau y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Er enghraifft, yn yr ysgol goedwig, maent yn defnyddio gwrthrychau naturiol yn grefftus ac yn mesur trychfilod a'u gosod mewn trefn o'r mwyaf i'r lleiaf. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau cyfredol a diddorol. Er enghraifft, wrth gynnal ymchwiliad i lanhau dŵr, maent yn mesur maint gronynnau a cherrig i ddarganfod effaith hyn ar yr amser hidlo.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n hynod effeithiol trwy amrywiaeth eang o brofiadau dysgu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ychwanegu testun a newid maint ffont yn effeithiol ac yn defnyddio rhaglenni bas data yn fedrus, er enghraifft wrth gyfri trychfilod. Ym Mlwyddyn 4, fel rhan o'u gwaith thema, maent yn animeiddio chwedlau'r Mabinogi yn hynod effeithiol, gan ychwanegu sain. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn arddangos dealltwriaeth dda o godio syml er mwyn rheoli a mewnbynnu cyfarwyddiadau.

Mae medrau creadigol a chorfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cydweithio ag artistiaid, cerddorion ac asiantaethau i ymchwilio i hanes cyfoethog yr ardal leol. Maent yn cymhwyso eu medrau'n gelfydd ac yn cydweithio'n llwyddiannus i greu a pherfformio cyflwyniadau digidol yn seiliedig ar waith eu themâu. Mae hyn wedi arwain at ddisgyblion yn datblygu eu dawn gelfyddydol a cherddorol yn llwyddiannus.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae amgylchedd hapus a chroesawgar yr ysgol yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau bod disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi o fewn cymuned ofalgar. Mae'r disgyblion a'u rhieni yn gwerthfawrogi gofal y staff ac maent yn hyderus eu bod yn ymateb ar unwaith i unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae bron bob disgybl yn mwynhau mynychu'r ysgol ac yn teimlo'n hapus o fewn ei naws gynhwysol. Maent yn teimlo'n gwbl ddiogel ac yn gwybod bod staff ar gael i wrando ar unrhyw ofid sydd ganddynt ac yn rhoi cyngor clir iddynt.

Mae ymddygiad bron bob un disgybl ar draws yr ysgol yn dda iawn ac maent yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch a chwarteisi. Maent yn gwrtais ac yn ystyriol o'i gilydd ac yn dangos balchder gwirioneddol wrth siarad am eu hysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn frwdfrydig wrth ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu. Trwy ddefnydd effeithiol o'r waliau cynllunio a'r trafodaethau ar ddechrau thema newydd, mae disgyblion yn rhannu eu syniadau ac yn ychwanegu cwestiynau ynglŷn â'r hyn maent yn dymuno ei ddysgu. Maent yn teimlo bod oedolion yn gwrando ar eu syniadau ac yn eu hystyried wrth gynllunio'r gweithgareddau dysgu ar eu cyfer. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn chwilfrydig wrth ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yn datblygu medrau annibynnol yn gynyddol fedrus wrth iddynt weithio mewn grwpiau bach heb arweiniad oedolyn. Ym Mlwyddyn 3 a 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dyfalbarhau ar dasgau ac yn gyfranwyr mentrus mewn grŵp, er enghraifft wrth iddynt ddatrys problemau rhifedd aml gam i gyfrifo cost taith i'r theatr leol. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymroi'n frwdfrydig i'w dysgu. Maent yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang, moesegol a gwybodus. Maent yn deall pwysigrwydd cefnogi pobl eraill mewn cymdeithas ac yn trefnu gweithgareddau llwyddiannus wrth godi arian i elusennau amrywiol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn aelodau balch o gynghorau llais y disgybl ac yn cyflawni eu rolau'n bwrpasol. Er enghraifft, mae'r cyngor Balchder Bangor yn cynnal gweithgareddau creu nythod adar i ennyn diddordeb disgyblion i werthfawrogi bywyd gwyllt. Yn ogystal, mae'r cyngor Cewri Cymru yn hybu'r elfen o berthyn a Chymreictod drwy gyfansoddi anthem i'r ysgol a chwarae caneuon Cymraeg adeg egwyl.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel unigolion iach a hyderus, ac yn deall sut i wneud dewisiadau synhwyrol mewn perthynas â diet a gweithgareddau corfforol. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg gorfforol a ffitrwydd i ddatblygu eu medrau corfforol, er enghraifft wrth iddynt gymryd rhan mewn sesiynau ysgol y goedwig a thrwy ddefnyddio'r offer amrywiol ar fuarth yr ysgol. Mae'r disgyblion hynaf yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o gystadlaethau, gan gynnwys pêl-droed, rygbi a nofio. Mae disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd dod i'r ysgol yn rheolaidd. Er gwaethaf gwaith addas yr ysgol i sicrhau presenoldeb cyson disgyblion, mae lefelau presenoldeb dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn isel o hyd.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Ar draws yr ysgol, mae'r holl staff yn cydweithio'n hynod effeithiol â disgyblion a rhieni i ddatblygu cwricwlwm symbylus a chyffrous sy'n diwallu anghenion bron bob disgybl yn dda iawn. Mae ganddynt weledigaeth glir yn seiliedig ar ddarparu profiadau dysgu sy'n ysbrydoli disgyblion, yn tanio eu dychymyg ac yn meithrin eu chwilfrydedd naturiol yn gelfydd. Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys ac yn ystyried y cysylltiadau rhwng yr ardal leol, Cymru a'r byd ehangach yn fedrus. Er enghraifft, yn sgil ymweliad â chwarel Penrhyn, mae'r ysgol wedi cysylltu cyfoeth teulu'r Penrhyn â chaethweision teulu'r Pennant yn Jamaica.

Ar draws yr ysgol, mae'r amgylchedd ddysgu atyniadol yn annog dysgu cynhyrchiol a phwrpasol. Mae perthynas waith effeithiol rhwng y staff a'r disgyblion ac maent yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn fedrus. Maent yn trin y disgyblion gyda charedigrwydd a pharch ac yn gosod eu hapusrwydd a'u lles yn flaenoriaethau amlwg. Mae staff yn sicrhau mynediad rheolaidd i ddisgyblion ymgymryd â gweithgareddau yn yr ardaloedd allanol deniadol sy'n cymhell disgyblion ac yn sbarduno'r dysgu. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau chwarae'n rhydd mewn amgylchedd sy'n llawn dewisiadau a gweithgareddau cyffrous.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau dysgu trwy gynllunio themâu difyr. Mae'r profiadau yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a diddordebau disgyblion i sicrhau dilyniant yn y dysgu. Mae'r themâu wedi eu cynllunio'n fedrus i sicrhau bod cyd-destunau dysgu cyffrous a mewnbwn gan gymuned yr ysgol. Er enghraifft, mae rhieni'n mynychu perfformiadau cyhoeddus yn y theatr leol ar ddiwedd themâu i ddathlu gwaith y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion wedi ei chynllunio'n ofalus ac yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i gymhwyso eu medrau ar draws ystod eang o gyd-destunau ysgogol. Mae'r profiadau dysgu hyn yn hybu disgyblion i arbrofi, gofyn cwestiynau ac i gydweithio'n effeithiol â'u cyfoedion.

Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ymarferwyr creadigol i gyfoethogi'r profiadau dysgu. Er enghraifft, mae dramodydd lleol yn cynnal sesiynau ymarferol i greu podlediad i ddatblygu medrau llafaredd Cymraeg disgyblion. Mae'r ymweliadau hyn yn sbarduno dychymyg disgyblion ac yn ehangu eu gwybodaeth am Gymru a'u treftadaeth.

Mae'r holl staff yn defnyddio ystod dda o dulliau addysgu i hybu'r dysgu yn bwrpasol. Mae athrawon yn gosod amcanion clir ac yn sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i lwyddo. Maent yn fodelau rôl iaith arbennig ac yn defnyddio dulliau holi treiddgar sy'n adalw gwybodaeth flaenorol i gadarnhau dealltwriaeth y disgyblion yn fedrus. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth llythrennedd Cymraeg bob tro'n meithrin diwylliant sy'n annog disgyblion i gyfathrebu'n Gymraeg ac yn annog mwynhad a chynnydd disgyblion wrth ddarllen llyfrau Cymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn gywir ac yn gwneud defnydd bwriadus o'r wybodaeth. Maent yn darparu adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol, gan sicrhau bod y disgyblion yn deall yr hyn mae angen iddynt ei wneud i symud eu dysgu ymlaen a datblygu eu medrau ymhellach. Yn yr arfer orau, mae'r adborth yn canolbwyntio ar agweddau pwysig sy'n berthnasol i'r dasg ac yn darparu arweiniad clir i ddisgyblion ymateb i adborth ac i wella nodweddion penodol o'u gwaith.

Mae arweinwyr a staff yn monitro ac olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl ac yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol i gynnal trafodaethau proffesiynol ymysg staff. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i ymateb i anghenion penodol unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae athrawon yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd gyda rhieni a gofalwyr am gynnydd a lles eu plant, sy'n gymorth iddynt ddeall sut i'w cynorthwyo gartref. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn adrodd yn glir ar gynnydd disgyblion yn ogystal â meysydd sydd angen iddynt eu datblygu.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, cartrefol ac ysgogol. Mae ethos yr ysgol a'r gwasanaethau cydaddoli yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn annog disgyblion i ystyried safbwyntiau eraill yn sensitif, i gydnabod a pharchu amrywiaeth a phwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch. Maent yn arwain trafodaethau bwriadus i atgyfnerthu'r gwerthoedd hyn yn gelfydd. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall y gwahaniaeth rhwng da a drwg ac yn gwybod beth sydd yn gyfiawn ac yn deg.

Mae'r ysgol yn pwysleisio parchu eu cynefin a'r cyswllt â'r byd ehangach i ddatblygu disgyblion cwrtais, sy'n ymddwyn yn dda ac yn falch o'u hysgol a'u cymuned. Mae staff yn cynllunio profiadau dysgu yn ofalgar er mwyn diwallu anghenion emosiynol, personol a chymdeithasol y disgyblion. Mae bron bob disgybl yn dangos empathi a pharch at eu cyfoedion a'r staff, gyda phawb yn dangos gofal serchog dros ei gilydd.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu, ac mae'r staff yn darparu amgylchedd gofalgar a diogel i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob aelod staff yn cael hyfforddiant pwrpasol ac mae'r corff llywodraethol yn cydweithio'n agos ag arweinwyr a staff i ddiweddarau'r gweithdrefnau yn rheolaidd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau mynegiannol a chreadigol disgyblion yn gryfder amlwg. Gwneir defnydd hynod effeithiol o ymwelwyr i ehangu profiadau creadigol disgyblion, er enghraifft wrth i artistiaid a cherddorion ymweld â'r ysgol i greu darnau celf drawiadol ac wrth gyd-gyfansoddi a pherfformio caneuon. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at fagu hyder llawer o'r disgyblion ynghyd â'u gallu i gydweithio'n effeithiol.

Mae dulliau cyfathrebu effeithiol yr ysgol yn sicrhau perthnasoedd cryf rhwng disgyblion, eu teuluoedd a'r ysgol. Mae'r staff yn trefnu nifer o ddigwyddiadau mewn partneriaeth â'r gymuned sy'n atgyfnerthu'r ymdeimlad o berthyn ac yn helpu'r disgyblion i barchu a gofalu am eraill. Er enghraifft, mae'r ysgol yn rhan ganolog o'r gymuned leol a manteisia'n llawn ar gyfleoedd i gynnal gweithgareddau fel gwasanaethau a chyngherddau yn yr eglwysi a chanolfannau lleol. Yn dilyn eu gwasanaeth yn y Gadeirlan, mae'r ysgol yn cefnogi elusennau lleol a rhyngwladol fel banc bwyd Bangor ac elusen bwydo'r fuwch yn Kenya.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion o gefndiroedd gwahanol ddylanwadu'n fwriadus ar ddatblygiadau, syniadau a phrofiadau dysgu ysgogol. Mae hyn yn dylanwadu'n bositif ar yr ysgol. Mae aelodau'r cynghorau cyngor ysgol yn falch o'u cyfrifoldebau ac yn adrodd yn ôl i'w cyfoedion mewn gwasanaethau ysgol. Mae hyn yn dylanwadu ar weithgareddau dysgu mewn themâu fel Bangor a'r Byd ac yn helpu sicrhau bod y disgyblion yn dathlu cefndiroedd a diwylliant gwahanol ddisgyblion.

Mae gan y pennaeth a'r holl staff ddiddordeb arbennig ac adnabyddiaeth drylwyr o anghenion bob disgybl. Mae'r ysgol wedi sefydlu trefniadau effeithiol i olrhain a monitro lles a chynnydd disgyblion. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r staff yn cydnabod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac yn rhoi cefnogaeth gynhwysfawr i unigolion a grwpiau o ddisgyblion o oed ifanc. Maent yn darparu cefnogaeth i'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol drwy ddefnyddio rhaglenni cefnogi pwrpasol. Mae amrywiaeth o bartneriaethau ag asiantaethau yn cynnig cymorth effeithiol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae adolygiadau o gynnydd disgyblion yn arwain at ddealltwriaeth gadarn gan staff o anghenion y disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn annog disgyblion i fwyta'n iach ac i ddatblygu ffitrwydd drwy amrywiaeth o weithgareddau corfforol. Mae'r ardal allanol ddeniadol, fel y gampfa awyr agored a'r cabanau yn yr ysgol goedwig, yn hybu iechyd a lles y disgyblion yn effeithiol. Mae

hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw ac o bwysigrwydd cadw'n heini.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer sicrhau presenoldeb cyson disgyblion yn briodol. Mae'r staff yn cadw cofnod o unrhyw absenoldeb ac yn cysylltu â rhieni a'r swyddog presenoldeb o fewn yr awdurdod yn amserol i drafod unrhyw bryderon ynglŷn â phresenoldeb eu plant. Fodd bynnag, mae cyfraddau presenoldeb yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Er bod arweinwyr yn blaenoriaethu gwella presenoldeb, yn gyffredinol, nid ydynt yn defnyddio nac yn dadansoddi'r data perthnasol yn ddigon trylwyr i adnabod patrymau a monitro effaith eu gwaith ar bresenoldeb disgyblion.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth, arweinwyr, a'r holl staff yn gweithio'n hynod effeithiol gyda'i gilydd i greu amgylchedd dysgu gofalgac ac ysbrydoledig, sydd wedi ei gynllunio'n ofalus i ddisgyblion. Mae'r pennaeth yn sicrhau arweinyddiaeth gref a strategol, sy'n rhoi cyfeiriad clir gan ysgogi brwdfrydedd staff i roi eu gorau i'r ysgol a'r gymuned. Gyda chymorth staff, llywodraethwyr a rhieni, mae'r ysgol wedi meithrin gweledigaeth gadarn. Mae hyn wedi ei seilio ar ddatblygu balchder disgyblion yn eu hunain a'u hardal leol, gan bwysleisio cydweithio i hyrwyddo lles ac addysg, gofal, a hapusrwydd i bawb. Mae hyn yn cyfrannu at agweddau cadarnhaol disgyblion at ddysgu ac yn gwneud iddynt ymfalchïo yn eu hysgol.

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau'n dda ac yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth o'r newidiadau addysgol cyfredol. Er enghraifft, mae staff yn arwain a datblygu cynlluniau ar gyfer y meysydd dysgu a phrofiad wrth iddynt sefydlu a datblygu Cwricwlwm i Gymru ymhellach. Mae trefniadau rheoli perfformiad staff yn ogystal â'r gefnogaeth a'r cymhelliant i ddatblygu arweinyddiaeth yn hynod effeithiol ac yn cyfrannu'n arbennig at eu datblygiad proffesiynol. Gyda'r ystod dda o gyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol, mae arweinwyr yn annog staff i ymchwilio i, a gweithredu, dulliau addysgu a dysgu newydd. Er enghraifft, mae staff wedi mabwysiadu ffyrdd effeithiol o ehangu medrau rhifedd drwy brofiadau go iawn.

Mae holl aelodau'r tîm arwain, gan gynnwys y rhai â chyfrifoldebau mewn gwahanol feysydd, yn cymryd rhan yn y broses hunanwerthuso ar gyfer gwelliant. Mae'r ysgol yn gweithredu trefniadau monitro manwl a llwyddiannus. Mae disgyblion, rhieni a llywodraethwyr hefyd yn cyfrannu'n rheolaidd. Mae'r trefniadau hyn wedi'u seilio ar ystod eang o ffynonellau tystiolaeth uniongyrchol, sy'n darparu darlun manwl a chywir o'r sefyllfa bresennol. Mae'r wybodaeth a gesglir yn dylanwadu'n uniongyrchol ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwelliant, gyda phwyslais arbennig ar gysylltu'r dysgu â phwrpas bywyd pob dydd a diddordeb y disgyblion. Mae'r prosesau gwella ysgol yn gynhwysfawr ac yn cael effaith gadarnhaol ar wella cynnydd, cyflawniad a chyrhaeddiad y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn monitro effaith y gweithgareddau dysgu proffesiynol ar ddarpariaeth a dulliau addysgu. Maent yn seilio gweithgareddau dysgu proffesiynol staff ar flaenoriaethau'r cynllun gwella'r ysgol, blaenoriaethau cenedlaethol ac anghenion proffesiynol unigol. Maent yn sicrhau bod y tîm addysgu'n cael cyfleoedd cyson a gwerthfawr i arsylwi ar arferion addysgu llwyddiannus ei gilydd a chydweithio

ag ysgolion eraill. Mae hyn yn gwella eu dulliau addysgu a chynllunio ar gyfer profiadau ysgogol sy'n ymwneud â'r themâu. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn dwysáu eu dealltwriaeth o effaith sbwriel a llygredd ar y gymuned yn fedrus.

Mae'r ysgol yn gweithredu trefniadau hynod effeithiol i ddatblygu diwylliant o gymhelliant a mentora sy'n cyd-fynd â phrofiadau arwain ffurfiol ac anffurfiol ar bob haen. Mae uwch arweinwyr yn cymell ac yn mentora eraill gan ddilyn camau a threfniadau penodol i staff gredu yn eu hunain, cymryd y cam nesaf yn eu gyrfa ac i ddatblygu arweinwyr y dyfodol. Maent hefyd yn trefnu bod athrawon yn arsylwi ar arfer dda ei gilydd ar draws yr ysgol ac mewn ysgolion eraill o fewn yr ardal leol. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i fod yn ddysgwyr egwyddorol sy'n barod i wrando'n astud ar eraill, i fyfrio ar faterion cyfoes ac i wneud dewisiadau da.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r pennaeth ac yn gweithio gydag ef a'r staff yn bwrpasol, gan gwestiynu effaith eu gwaith fel ffrindiau beirniadol. Maent yn wybodus ac mae eu mewnbwn deallus a chadarnhaol yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau ar draws yr ysgol. Mae'r pennaeth yn eu cynghori'n realistig ac yn onest ynglŷn â sut i wella'r ddarpariaeth, er enghraifft am yr angen i herio disgyblion i wella'u medrau. Mae llywodraethwyr yn wybodus am flaenoriaethau cenedlaethol, fel Cwricwlwm i Gymru ac effaith tlodi ar fywydau disgyblion a'u teuluoedd o fewn eu gymuned eu hunain. Maent yn sicrhau bod trefniadau pwrpasol gan yr ysgol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn casglu barn rhieni yn gyson am agweddau pwysig o brofiadau dysgu eu plant ac yn eu hymgorffori'n fedrus yng Nghwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys darparu gweithgareddau sy'n dwysáu dealltwriaeth disgyblion o faterion i hybu ffitrwydd gan gymhwyso eu medrau digidol a chreu ffilm fel cyfrwng i drosglwyddo gwybodaeth. Yn ogystal, mae staff yn manteisio'n greffus ar fedrau ac arbenigeddau rhieni a phartneriaid cymunedol mewn cyd-destunau dysgu go iawn sy'n ennyn diddordeb a chodi dyheadau disgyblion.

Mae perthynas yr ysgol â'r rhieni wrth gefnogi'r gymuned ac wrth gydweithio parhaus yn hybu'r ysgol a'i pherthynas â'r gymuned ehangach yn hynod effeithiol.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddogfennau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru: [Estyn](#)

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/08/2024